Heddlu hefyd fynychu'r diwrnod. Roedd gwerthwr bwyd a hufen iâ lleol yno hefyd i ddarparu lluniaeth i bawb. Cafodd cerddoriaeth ar y diwrnod ei darparu gan Fand Iwcalili Kosewecan o Ganolbarth Lloegr gafodd ei gwerthfawrogi'n fawr gan yr ymwelwyr a'r stondinwyr.



Roedd y brif raffl, oedd yn cynnwys dros ddau ddwsin o wobrau arbennig, yn bosibl oherwydd haelioni caredig busnesau lleol, stondinwyr a thrigolion wnaeth roi'r gwobrau fel rhodd.



Bu i grwpiau lleol oedd gyda stondinau ar y diwrnod gasglu arian tuag at eu grwpiau - Eglwys Sant Gwyddelan, £80; Dolwyddelan yn ei Blodau, £116; Hosbis Dewi Sant, £141; Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru, £117 a hefyd ar ran yr argyfwng yn Wcráin, £265 (cafodd y rhan fwyaf ohono ei godi gan Fand Iwcalili Kosewecan).

Daeth llawer iawn o bobl leol ac ymwelwyr i'r digwyddiad (cafodd un cwpl o Gernyw oedd yn cerdded y mynyddoedd uwch ben Dolwyddelan eu denu i lawr gan sŵn hwyliog y band Iwcalili!). Cafodd pawb ddiwrnod gwerth chweil.

*Paul Donnelly*